# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 4

GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL

*Apelau i'r tribiwnlys*

### 104 Apelau yn erbyn penderfyniadau panel apelau cofrestru

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo panel apelau cofrestru—

(a) yn gwneud dyfarniad o dan adran 98(1)(b) na ddylai cofnod yn y gofrestr gael ei adfer am reswm sy'n ymwneud ag addasrwydd y person i ymarfer;

(b) yn cyfarwyddo o dan adran 98(4) na chaiff person gyflwyno ceisiadau pellach i adfer i ran o'r gofrestr, neu'n cadarnhau cyfarwyddyd o'r fath o dan adran 99(2);

(c) yn gwneud dyfarniad mewn cysylltiad â chais i adfer a atgyfeirir iddo yn rhinwedd rheolau a wneir o dan adran 100(2)(e) am reswm sy'n ymwneud ag addasrwydd y person i ymarfer;

(d) yn gwneud dyfarniad o dan adran 103 mewn cysylltiad ag apêl yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd.

(2) Caiff y person y mae penderfyniad y panel yn ymwneud ag ef apelio i'r tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.

(3) Rhaid i apêl o dan yr adran hon gael ei dwyn cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad penderfyniad y panel.

(4) Ond caiff y tribiwnlys ganiatáu i apêl gael ei gwneud iddo ar ôl diwedd y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (3) os yw wedi ei fodloni bod rheswm da dros fethu ag apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw (a thros unrhyw oedi o ran gwneud cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol).

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/04/2017.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 104. (See end of Document for details)*

(5) Ar apêl o dan yr adran hon, caiff y tribiwnlys—

(a) cadarnhau'r penderfyniad,

(b) rhoi penderfyniad arall y gallai'r panel fod wedi ei wneud yn lle penderfyniad y panel, neu

(c) anfon yr achos yn ôl i GCC i'w waredu yn unol â chyfarwyddydau'r tribiwnlys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 104 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** A. 104 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(c)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/04/2017.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 104.